



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL YR ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL AR Y GYMRAEG 2021-2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English

Mehefin 2022

Cynnwys

ADRAN 1 - RHAGAIR	2
ADRAN 2 – CYFLWYNIAD A CHEFNDIR	3
SAFONAU'R GYMRAEG	3
ADRAN 3 - CYNNYDD AR WEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG	4
RHAGLEN IAITH GYMRAEG	4
ASESU EFFAITH	5
GWEITHREDU STRATEGAETH 5 MLYNEDD Y GYMRAEG A'R CYNLLUN STRATEGOL ADDYSG GYMRAEG	6
DYSGU CYMRAEG MORGANNWG	8
GAIR/DYWEDIAD CYMRAEG BOB PYTHEFNOS	9
SGILIAU GWAITH I OEDOLION 2	9
GWIRFODDOLWYR SY'N SIARAD CYMRAEG	9
BOREAU COFFI CYMRAEG	9
GRŴP HYRWYDDWYR Y GYMRAEG	9
CWRS CYFLWYNO'R GYMRAEG	10
CYFARFODYDD	10
GRŴP DEDDF	10
GALLUEDD AC ADNODDAU	10
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH	11
SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU	11
SAFONAU LLUNIO POLISI'AU	11
SAFONAU GWEITHREDU	11
SAFON 151	11
SAFON 152	14
SAFON 154	14
CWYNION	14
ADRAN 4 - MANYLION CYSWLLT	15

Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei Hysbysiad Cydymffurfiaeth terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Amlinellodd hyn ddyletswydd y Cyngor i fodloni Safonau'r Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rhoddodd y Mesur hwn statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg fel na ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg i sicrhau y gall y rhai yng Nghymru sy'n dymuno byw eu bywydau yn Gymraeg wneud hynny trwy orfodi Cynghorau a chyrrff sector cyhoeddus eraill, i ddarparu'u gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn mynnu bod y Cyngor yn llunio Adroddiad Blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Safonau ar gyfer Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisiâu a Gweithredu. Mae'r Safonau hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyhoeddiad a chyhoeddusrwydd yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi cynnydd y Cyngor tuag at gydymffurfio â'r Safonau yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-2022.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i annog ei holl breswylwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, ac i greu amgylchedd lle maen nhw'n teimlo y gallant ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Sector Gwirfoddol (yn benodol Menter Iaith Merthyr Tudful) i'n helpu i gyflawni ein rhwymedigaethau yn llwyddiannus i'r gymuned o dan y ddeddfwriaeth.

SAFONAU'R GYMRAEG

Yn 2011, cafodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ei disodli gan Fesur y Gymraeg (Cymru) ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid oes raid bellach i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg, ond mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg yn lle hynny.

Mae'r Safonau'n esbonio'r modd y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae CBSMT yn bodloni'r Safonau hyn.

Mae'r Mesur yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau ymddygiad ynghylch y Gymraeg. Mae'r Mesur yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu Safonau yn y meysydd canlynol:

- Darparu Gwasanaethau;
- Llunio Polisiâu;
- Gweithredu;
- Hybu;
- Cadw Cofnodion.

Nod y Safonau yw:

- gwneud yn glir i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg;
- gwneud yn gliriach i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella eu hansawdd.

“Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.

Wrth arfer ei swyddogaethau'n unol â'r prif nod yma, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw:

- i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru;
- i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy gyfraith a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny;
- i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; ac
- i'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.”

Dyfyniad o'r "Cod Ymarfer ar gyfer Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) Rheoliadau 2015", Comisiynydd y Gymraeg, 19 Chwefror 2020

ADRAN 3 CYNNYDD AR WEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG

Mae'r canlynol yn crynhoi peth o'r cynnydd allweddol y mae'r Cyngor yn ei wneud wrth weithredu'r Safonau:

RHAGLEN IAITH GYMRAEG

Mae'r Cyngor wedi datblygu Rhaglen Iaith Gymraeg sydd wedi'i strwythuro o amgylch cydymffurfio â'r Safonau, cyfieithu a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n cynnwys y canlynol:

- Ffôn a Derbynfa
- Gohebiaeth
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Gwefan
- Hyfforddiant Iaith Gymraeg
- Ymgyrch #Shwmaergylch
- Gwaith Cwsmer Cudd
- Lleoliad Gwaith Gymraeg
- Cyfieithu Gymraeg
- Adroddiadau Blynyddol ar y Gymraeg



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae'r Rhaglen Iaith Gymraeg yn rhan o Raglen Waith Gwasanaethau Corfforaethol y Cyngor sy'n cefnogi'r dasg o gydymffurfio â'r Safonau a chyflawni'r canlynol:

- Nod Llesiant: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.
- Strategaeth y Cyngor ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg a Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Miliwn o Siaradwyr Gymraeg.

Fel rhan o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, caiff cynnydd y Rhaglen Iaith Gymraeg ei fonitro trwy adroddiadau sy'n cyfleu'r uchafbwyntiau ac yn cael eu hadrodd fel rhan o gyfarfodydd rheoli'r Gwasanaethau Corfforaethol, ac yn bwydo i mewn i Strategaethau Un Dudalen y Cyngor (Newid a Pherfformiad).

Isod, rydym wedi amlinellu rhai o'r newidiadau allweddol a wnaed wrth gyflwyno'r Rhaglen Iaith Gymraeg.

Yn sgil effeithiau'r coronafeirws, ni fu modd inni weithredu pob un o'r prosiectau uchod yn llawn. Nid yw'r Cyngor wedi gallu cynnal Ymarfer Cwsmer Cudd ond caiff ei weithredu yn 2022/23 wrth i gyfyngiadau'r pandemig lacio.

Cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg (CIG) Ymarfer Cwsmer Cudd lle ffonwyd ac anfonwyd e-byst at y Cyngor i asesu'i ymateb a'i gydymffurfiaeth. At hynny, adolygodd CIG y Cyngor o ran ei gyfryngau cymdeithasol a'i wefan. Yn dilyn yr ymarfer, amlygodd yr adroddiad a gynhyrchwyd feysydd i'w gwella. Roedd y meysydd hyn yn canolbwyntio ar y ffordd yr ydym yn cyfarch ein trigolion yn Gymraeg a'r angen i gyhoeddi fersiwn derfynol ein Cynllun ar Weithredu Safonau'r Gymraeg (Atodiad 2 yr adroddiad hwn). Mae Cynllun Gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion ac i ddangos y modd yr ydym yn gwella. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i gryfhau ymdrechion ym mhob maes arall o'r Cyngor.

Asesu Effaith Integredig

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae'r Cyngor wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig (yr Asesiad). Mae'r Asesiad yn delio ag effaith cydraddoldeb yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hefyd yn asesu yn erbyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Caiff yr Asesiad ei gyflwyno ar y cyd ag adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor fel rhan o'r broses llunio penderfyniadau. Mae Asesiadau Effaith Integredig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ynghyd ag adroddiad perthnasol y Cabinet neu'r Cyngor.

Mae'r Asesiad yn cefnogi'r Cyngor er mwyn arddangos y ffordd y mae ei wasanaethau cynllunio, darparu a monitro yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy a'r ffordd y mae'n ceisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Merthyr Tudful, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy:

- feddwl am effaith **hirdymor** ein gwaith ar bobl Merthyr Tudful;
- cymryd ymagwedd **integredig** at wasanaethau, gan edrych ar yr effaith y gallai ein gwaith ei chael ar wasanaethau a sefydliadau eraill;
- **cynnwys** pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill i ddod o hyd i atebion **cydweithredol**; a
- deall yr hyn sydd wrth wraidd problemau a'u **hatal** rhag digwydd.

Sut bydd CBS Merthyr Tudful yn gweithio?



Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydweithredu



Cyfranogiad

Mae'r Asesiad hefyd yn mynd i'r afael â'r ffordd y mae mentrau'n bodloni amcanion a nodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hefyd yn asesu Bioamrywiaeth a Safonau'r Gymraeg. Mae hyn oll yn cefnogi'r broses o lunio penderfyniadau mewn modd effeithiol ac effeithlon, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011;
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- Adran 6 o Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- Y ddyletswydd economaidd gymdeithasol (Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Mae'r Asesiad wedi cael ei atodi i Fframwaith Reoli Prosiectau CBSMT ac ar gyfer defnydd gweithredol (yn ôl y gofyn). Mae'r Asesiad yn cael ei gefnogi gan ganllawiau manwl er mwyn cynorthwyo staff i gwblhau'r ddogfen sydd ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor.

Cynlluniau Strategol a Monitro

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu a chynllunio fel rhan o'i Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (RTI). Mae hyn wedi golygu bod ein strategaethau a'n cynlluniau iaith Gymraeg wrth wraidd ac yn ganolog i'n Cynllun Llesiant Corfforaethol a'n hadroddiadau ar Hunanasesu. At hynny, mae'r Cyngor wedi cwblhau ei Gynllun ar gyfer Gweithredu Safonau'r Gymraeg a fydd yn cael ei gyflwyno er cymeradwyaeth y Cabinet gyda'r adroddiad hwn. Bydd monitro'r cynlluniau hyn yn rhan o drefniadau llywodraethu presennol y Cyngor, gan gynnwys adolygiadau chwarterol ar berfformiad a gwelliant.

GWEITHREDU STRATEGAETH 5 MLYNEDD Y GYMRAEG A'R CYNLLUN STRATEGOL ADDYSG GYMRAEG

Eisteddfod T yr Urdd

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni modd cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd wyneb yn wyneb ar gyfer mis Mai 2021. Yn hytrach, am yr ail flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd "Eisteddfod T" ar-lein lle cyflwynwyd pob ymgais am gystadleuaeth gan fideo. Cymerodd Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful, Ysgol Uwchradd Pen y Dre a'r Coleg ym Merthyr Tudful ran. Myfyriwr o'r Coleg ym Merthyr Tudful a ddaeth yn ail yn y brif gystadleuaeth i ddysgwyr Cymraeg gyda myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Pen y Dre yn dod yn gyntaf ac yn ail yn y cystadlaethau llefaru unigol i flwyddyn 12 ac iau.



Animeiddiad o'r Llyfryn Bod yn Ddwyieithog

Ym mis Chwefror 2022, trowyd y Llyfryn Bod yn Ddwyieithog yn animeiddiad, fel dull o farchnata addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n fideo dwy funud o hyd, sy'n crynhoi prif themâu'r llyfryn. Bu Partneriaid ac Arweinydd Strategol y Gymraeg yn cydweithio i greu'r animeiddiad. Gosodwyd y fideo ar dudalen Shwmaergyloch. Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr holl Bartneriaid a bellach, mae Cyngor arall yn bwriadu ymgymryd â phrosiect tebyg.

Diwrnod Shwmae Su'mae

Ar gefn llwyddiant y Diwrnod Shwmae Su'mae yn 2020, cafodd dau ddigwyddiad eu trefnu mewn partneriaeth ag aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg a Grŵp Llywio Strategol y Gymraeg. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn ym Mharc Cyfarthfa ar 16 Hydref a Chanolfan Hamdden Gymunedol Aber-fan ar 17 Hydref. Cymerodd plant o Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa, Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw, Ysgol Gynradd Coed y Dderwen ac Ysgol Gynradd Abercannaid ran yn y digwyddiad drwy berfformio eitemau Cymraeg. Fe wnaeth disgybl o Ysgol Gyfun Rhydywaun hefyd gymryd rhan ynghyd â thelynore broffesiynol leol a Chôr Meibion Ynysowen. Darparwyd gweithgareddau gan amrywiaeth o bartneriaid dwyieithog a Chymraeg fel y gallai'r plant, y bobl ifanc a'r gymuned gymryd rhan ynddynt. Mynychodd busnesau Cymraeg y digwyddiad hefyd i hyrwyddo a gwerthu eu cynnyrch. Darparodd y digwyddiadau hyn gyhoeddusrwydd cadarnhaol i'r defnydd o'r Gymraeg ar draws Merthyr Tudful. Mynychodd rhwng 300 a 400 o bobl y digwyddiadau hyn. Cafodd Addysg Gymraeg a'r Iaith Gymraeg eu marchnata gyda'r holl bartneriaid yn meddu ar stondinau i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd. Y partneriaid a gymerodd ran yn y digwyddiad oedd: Mudiad Meithrin, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Dysgu Cymraeg Morgannwg, Llesiant Merthyr, Adran Blynnyddoedd Cynnar y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd CBSMT, a'r Coleg ym Merthyr Tudful.

Cyngerdd Carolau Cymraeg

Gan adeiladu ar y Cyngerdd Carolau Nadolig ar-lein a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019, ffilmiwyd Cerdd Nadolig Cymraeg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ysgolion Merthyr Tudful. Dosbarthwyd hwn i bob ysgol gynradd. Gan weithio ar y cyd â busnes lleol, ymwelodd eu Lori Dolig ag ysgolion oedd wedi cymryd rhan yn Niwrnod Shwmae Su'mae, a chafodd y ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ymweliad arbennig gan Siôn Corn a'i gorachod a ymgysylltodd â'r plant yn ddwyieithog. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus a chafwyd adborth cadarnhaol.

#SHWMAERGYLCH Tudalen ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Ym mis Ionawr 2022, lansiodd tudalen #SHWMAERGYLCH ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn rhan o gynllun marchnata a hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r dudalen yn cynnig gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg a gynhelir ym Merthyr Tudful a gweithgareddau Cymraeg i blant a phobl ifanc. Bydd unrhyw ddigwyddiadau a drefnir gan CBSMT a phartneriaid yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen hon. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r dudalen ac ar hyn o bryd mae ganddi 186 o ddilynwyr gyda'r post mwyaf poblogaidd wedi denu 26,000 o ymweliadau ar gyfer y fideo "Bod yn Ddwyieithog". Mae hyn yn cefnogi'r ffordd yr ydym yn annog y defnydd o'r Gymraeg ym Merthyr Tudful a'r Cyngor. Mae hyn yn ein helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol.

Digwyddiadau Ymgynghori ynghylch y Gymraeg

Fel rhan o ysgrifennu'r Strategaeth Iaith Gymraeg newydd a Chynllun Strategol Addysg Gymraeg, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ledled y Fwrdeistref Sirol mewn lleoliadau cymunedol er mwyn i'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid roi eu barn ar y strategaethau newydd. Mynychwyd y digwyddiadau hyn gan bobl ifanc, rhieni ac aelodau o'r gymuned. Cynhaliwyd arolwg ar-lein hefyd i'w gwblhau gan y cyhoedd.

Cynhadledd ar y Gymraeg

Mae ymwneud â phartneriaid wedi ein helpu ni i ddatblygu nodau ac amcanion ar gyfer Strategaeth Iaith Gymraeg newydd y Cyngor. Trefnwyd Cynhadledd ar y Gymraeg ar-lein ym mis Mehefin 2021. Cafwyd siaradwyr gwadd o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, HR Talent, Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith Caerffili i siarad am bynciau arbenigol yn ymwneud â'r Strategaeth. Cafwyd trafodaeth ar yr hyn y credwyd y byddai o fudd i'r Gymraeg ac i addysg ar draws y Fwrdeistref Sirol dros y pum mlynedd nesaf. Cyhoeddir y strategaeth derfynol ym mis Gorffennaf 2022.

Chwaraeon yn y Gymraeg i Glwstwr Ysgolion Afon Taf

Ym mis Gorffennaf 2021, trefnwyd chwaraeon Cymraeg ar gyfer clwstwr ysgolion Ysgol Uwchradd Afon Taf ar y cyd ag Urdd Gobaith Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT). Pwrpas y digwyddiad oedd rhoi cyfle i'r disgyblion gael profiad o ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol y tu allan i'r dosbarth. I gefnogi hyn, roedd disgyblion o Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd y Grug yn bresennol i ddarparu'r cyhoeddiadau Cymraeg ar gyfer pob digwyddiad. Oherwydd y cyfyngiadau a ddaeth yn sgil pandemig y coronafeirws, trefnwyd y digwyddiad hwn dros ddau ddiwrnod gwahanol. Darparwyd y gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg gan staff yr Urdd a CBSMT.

Eisteddfod Clwstwr Cyfarthfa

Er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, fe wnaeth Arweinydd Strategol ar gyfer y Gymraeg gefnogi ysgolion clwstwr Cyfarthfa i drefnu Eisteddfod ar-lein ym mis Chwefror 2022. Cymerodd holl ysgolion y clwstwr ran yn y digwyddiad drwy berfformio amrywiaeth o fiwsig, adroddiadau a dawns. Llwyddodd y clwstwr i gael grant o Gronfa Ffos-y-frân i gefnogi'r digwyddiad hwn. Rhannwyd yr Eisteddfod ar dudalen SHWMAERGYLCH ar Facebook. Cafodd y digwyddiad adborth cadarnhaol gan ddenu tua 800 o ymweliadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi

Mewn cydweithrediad â'r Coleg ym Merthyr Tudful, cynhaliwyd digwyddiad ar Ddydd Gŵyl Dewi. Cymerodd Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful, Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd y Grug ac Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley ran yn y digwyddiad gan berfformio darnau cerddorol ac Eisteddfodol. Roedd y Maer ynghyd ag Arweinydd y Cyngor a'i Hyrwyddwr Iaith Gymraeg, yn bresennol yn y digwyddiad. Lansiodd y Coleg y gair Shwmaergyloch i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac i gefnogi'r ymgyrch debyg gan CBSMT.

Cyngerdd Eisteddfod Clystyrau Ysgolion Uwchradd Pen-y-dre a Chyfarthfa

Ym mis Mawrth 2022, trefnwyd Cyngerdd Eisteddfod Glystyrau yn Theatr Soar ar gyfer enillwyr eisteddfodau Clwstwr Cyfarthfa a Phen-y-dre. Perfformiodd enillwyr pob cystadleuaeth eu heitemau i rieni a ffrindiau a chyflwynwyd y digwyddiad gan bobl ifanc o Ysgolion Uwchradd Cyfarthfa a Phen-y-dre. Trefnwyd y digwyddiad hwn gyda Menter Iaith Merthyr Tudful a Swyddog Datblygu'r Urdd ar gyfer Merthyr Tudful. Mynychodd "Mistar Urdd" y digwyddiad hefyd. Bwriad y cyngerdd hwn oedd cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg a rhoi'r cyfle i'r plant ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth drwy gynnig profiad iddynt o eisteddfod.

DYSGU CYMRAEG MORGANNWG

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg i ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn y gweithle i staff a Chynghorwyr. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch hyrwyddo barhaus i annog staff a Chynghorwyr i fachu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg trwy sesiynau galw-heibio, sesiynau mewnwyd a negeseuon e-bost, yn ogystal â sesiynau blasu. Mae'r holl gyrsiau a'r dysgu eleni wedi'u cynnal ar-lein.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor aelodau o staff yn dysgu Cymraeg yn y gweithle gan amrywio o Lefel Mynediad i Lefel Canolradd 1 a 2. Mae cyrsiau e-ddysgu Cymraeg Lefel 1 yn cael eu hyrwyddo ymhlith y staff fel rhan o'n hadferiad o bandemig y coronafeirws ac fel rhan o'n cynllunio gwelliant ehangach (y Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella) wrth inni ddatblygu diwylliant ddysgu ar draws y Cyngor.

Wrth weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg, rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr fel y gallant wrando ar y Gymraeg ac ymarfer ei defnyddio. Yn y gorffennol, bu dysgwyr o'r Cyngor yn cynorthwyo Dysgu Cymraeg Morgannwg wrth farchnata cyrsiau a chynnig unrhyw gymorth i hyrwyddo'r Gymraeg ledled Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Fel rhan o weithredu Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg a'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg, cyfrannodd pedwar dysgwr Cymraeg y Cyngor at brosiectau trwy gynnal gweithgareddau oedd yn nodi'u rhesymau dros benderfynu dysgu Cymraeg a'r manteision a darddodd o hynny.

GAIR/DYWEDIAD CYMRAEG BOB PYTHEFNOS

Er mwyn cefnogi'r staff a'r Chynghorwyr sy'n dysgu Cymraeg, mae'r Cyngor wedi datblygu'r Fenter Gair/Dywediad Cymraeg Bob Pythefnos.

Mae'r ymadroddion byrion Cymraeg yn ymddangos ar sgriniau cyfrifiadur bob pythefnos ac fe'u cynlluniwyd i helpu staff a Chynghorwyr i ddysgu Cymraeg busnes sylfaenol. Anogir staff a Chynghorwyr hefyd i ymarfer yr ymadroddion Cymraeg gyda'u cydweithwyr, eu ffrindiau a'u teuluoedd. Mae'r fenter hon wedi'i gohirio oherwydd blaenoriaethu a achoswyd gan bandemig y coronafeirws, ond fe ailymwelir â hi ar gyfer 2022/23.



Cyfranogiad

SGILIAU GWAITH I OEDOLION 2

Mae Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 wedi cynnal tri chwrs ar sgiliau Cymraeg iaith Meithrin i Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar ar Lefel Mynediad 3, ac un cwrs ar gyfer Sgiliau Cymraeg i Staff Derbynfeydd ar Lefel Mynediad 3.



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

GWIRFODDOLWYR SY'N SIARAD CYMRAEG

I ategu'r Hyfforddiant Gloywi ar Ddefnyddio'r Gymraeg i Gyfarch Cwsmeriaid a Thrin eu Galwadau dros y Ffôn, mae'r Cyngor wedi adolygu a diweddarau ei restr o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg a'i gosod ar fewnrwyd y staff.

Mae'r rhestr hon yn nodi'r aelodau staff sydd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo'r Cyngor i siarad â chwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg, ac maen nhw'n cynnwys siaradwyr rhugl a dysgwyr i'w cefnogi wrth ymarfer eu Cymraeg.

BOREAU COFFI CYMRAEG

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda staff y Ganolfan Dysgu yn y Gymdogaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gynnal bore coffi unwaith y mis ar gyfer dysgwyr a staff sydd wedi colli'u hyder i siarad yr iaith. Drwy bandemig y coronafeirws, bu'n anodd gwneud hyn trwy ddulliau rhithwir, felly'r gobaith yw dod â hyn yn ôl yn fuan ar sail wyneb yn wyneb fel y gellir adeiladu ar y llwyddiant. Mae'n ddigwyddiad anffurfiol lle mae aelodau'r staff yn siarad am hobiau a digwyddiadau cymdeithasol. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn a'r gobaith yw y bydd modd ei gyflwyno i adrannau eraill o'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal sesiynau galw-heibio anffurfiol yn y Ganolfan Ddinesig ac adeiladau eraill y Cyngor lle gall y staff ymarfer a magu'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.



Atal

GRŴP HYRWYDDWYR Y GYMRAEG

Ym mis Hydref 2019, sefydlwyd Grŵp Hyrwyddwyr y Gymraeg ar gyfer aelodau staff y Cyngor. Pwrpas y grŵp hwn yw rhannu syniadau am arferion da i weld sut y gall adrannau weithredu Safonau'r Gymraeg a thrafod unrhyw faterion mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae Standiau Desg Cymraeg wedi'u creu ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn eu helpu ag ymadroddion sylfaenol a rhoi'r hyder iddynt lefaru geiriau a dywediadau sylfaenol yr iaith. Mae'r adnodd hwn hefyd ar gael ar fewnrwyd staff y Cyngor. Mae Grŵp Hyrwyddwyr y Gymraeg (staff) wedi bod yn anodd ei drefnu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf oherwydd effeithiau pandemig y coronafeirws. Bydd y grŵp hwn yn cael ei adolygu ac yn helpu i gwrdd ag amcanion Strategaeth newydd y Gymraeg.

CWRS CYFLWYNO'R GYMRAEG

O 1 Ebrill 2021, bydd yn ofynnol i bob aelod newydd o'r staff ymgymryd â chwrs sy'n cynnig cyflwyniad i'r Gymraeg, sef y Cwrs Cymraeg Gwaith 10 awr Ar-lein. Mae'n darparu hyfforddiant sylfaenol yn y Gymraeg ar:

- ateb y ffôn;
- rhoi cyfarwyddiadau a gwybodaeth i ymwelwyr allanol wrth iddynt ddod i mewn i'r adeilad;
- dysgu sut i ynganu rhifau;
- enwau lleoedd; a
- misoedd y flwyddyn.

Anogir pob aelod presennol o staff i ddilyn y cwrs fel rhan o'u gwerthusiad "Ffocws ar Fy Mherfformiad" (arfarniad blynyddol o berfformiad y staff a chynlluniau datblygu proffesiynol).

O ddechrau Ebrill 2021, mae 115 o aelodau staff newydd wedi cwblhau'r cwrs.

CYFARFODYDD

Erbyn hyn, mae'n arfer cyffredinol i agor cyfarfodydd yn Gymraeg ac mae defnydd o'r iaith ym mhob ffurf yn cael ei annog gan Uwch Reolwyr a Chynghorwyr fel ei gilydd.

GRŴP DEDDF

Mae'r Cyngor yn aelod gweithgar o'r Grŵp Deddf ac yn mynychu'i gyfarfodydd yn rheolaidd. Mae'r Grŵp Deddf yn wirfoddol ac yn cynnwys Swyddogion Iaith Gymraeg ar gyfer cyrff sector cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nod y Grŵp Deddf yw trafod a rhannu gwybodaeth ac arferion da mewn perthynas â'r Gymraeg.

GALLUEDD AC ADNODDAU

Mae'r Cyngor wedi cynnal ymarferion i gryfhau ei alluedd. Mae hyn wedi arwain at greu rôl i ddatblygu a chyflwyno Strategaeth y Gymraeg, a ffurfiwyd rôl arall i ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth yn ogystal â chefnogi datblygiad a chyflawniad y Strategaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn cryfhau ei ymdrechion i drawsnewid ei systemau llywodraethol a digidol yn ehangach. Mae system AD newydd yn cael ei rhoi ar waith a fydd yn gwella'r ffordd y gall pobl wneud cais am swyddi yn y Cyngor a'r ffordd y caiff swyddogaethau mwy cyffredinol eu gweithredu. Bydd hyn o gymorth i'r modd y defnyddir y Gymraeg wrth ymgeisio am swyddi ac wrth gofnodi a dadansoddi data.

Mae'r Cyngor yn defnyddio ei gynlluniau ariannol i wneud cais am gyllid i gyflawni prosiectau allweddol. Mae hyn yn cael ei archwilio mewn perthynas â'n dulliau ar gyfer cyflawni Strategaeth a Safonau'r Gymraeg ac ar gyfer hyrwyddo'r iaith.

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Mae gennym nifer o bartneriaethau allweddol ar waith i gydweithio â nhw ac i gynnwys yn ein gwaith. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd i gefnogi a datblygu'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:



Cyfranogiad

- Menter Iaith Merthyr Tudful
- Yr Urdd
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ym Merthyr Tudful
- Ysgol Gyfun Rhydywaun
- Consortiwm Canolbarth y De
- Y Gwasanaeth Ieuencid
- Y Coleg, Merthyr Tudful
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned



Cydweithredu

Rydyn ni hefyd yn cynnal deialog gweithredol â Chynghorau eraill a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wrth gyflawni ein gwaith.

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 87 o Safonau Cyflenwi Gwasanaethau Polisi. Nid oes yr un Safon Cyflenwi Gwasanaeth dan ymchwiliad.

SAFONAU LLUNIO POLISI'AU

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 16 o Safonau Llunio Polisi'au. Nid oes yr un Safon Llunio Polisi dan ymchwiliad.

SAFONAU GWEITHREDU

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 53 o Safonau Gweithredu. Nid oes yr un Safon Gweithredu o dan ymchwiliad.

SAFON 151

SGILIAU CYFLOGEION YN Y GYMRAEG (AR SAIL COFNODION A GADWYD YN UNOL Â SAFON 151)

Mae'r Cyngor wedi gwella'r modd y mae'n cofnodi ac yn adrodd ar ei ddata. Mae hyn i'w weld yn y tablau isod ac mae'n amlwg bod y Cyngor yn gwella'i ddealltwriaeth o'r modd y mae'r gweithlu yn defnyddio'r Gymraeg.

Gall y rhai sy'n meddu ar ddim sgiliau neu sgiliau sylfaenol gofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg ym mis Medi 2022 (neu fentrau eraill drwy gydol y flwyddyn) i'w cynorthwyo i godi lefel eu sgiliau os dymunant.

Sgiliau Gwrando	Nifer y Cyflogeion 2020/21	Canran y Cyflogeion 2020/21	Nifer y Cyflogeion 2021/22	Canran y Cyflogeion 2021/22
Pob sgwrs gwaith	108	13.08	120	7.38
Mwyafrif sgysiau gwaith	22	2.66	23	1.42
Sgysiau arferol	38	4.60	42	2.58
Sgysiau cymdeithasol sylfaenol	142	17.19	174	10.71
Ymholiadau sylfaenol	431	52.18	552	33.97
Dim sgiliau	85	10.29	714	43.94
Cyfanswm	826	100.00	1,625	100.00

Cynnydd o 11% (o 108 yn 2020/21 i 120 yn 2021/22) yn nifer y staff sy'n teimlo bod ganddynt y sgiliau gwrando i gynnal pob sgwrs gwaith yn Gymraeg. Mae hyn yn 7.38% o'r rhai a ddarparodd ddata. Fodd bynnag, mae hyn yn ganran is o faint y sampl gyffredinol mewn cymhariaeth â 2020/21.

Rydyn ni hefyd wedi gweld cynnydd yn y modd y gall staff gynnal sgysiau cymdeithasol sylfaenol (cynnydd o 23% - o 142 yn 2020/21 i 174 yn 2021/22) ac ymholiadau sylfaenol (cynnydd o 28% - o 431 yn 2020/21 i 552 yn 2021/22). Unwaith eto, mae'r rhain yn ganrannau is o faint y sampl gyffredinol mewn cymhariaeth â 2020/21.

Sgiliau Darllen	Nifer y Cyflogeion 2020/21	Canran y Cyflogeion 2020/21	Nifer y Cyflogeion 2021/22	Canran y Cyflogeion 2021/22
Pob deunydd gwaith	103	12.47	118	7.33
Y rhan fwyaf o ddeunydd	40	4.84	46	2.86
Deunydd cyffredin (gan ddefnyddio geiriadur)	61	7.38	69	4.29
Deunydd gwaith sylfaenol	103	12.47	130	8.08
Geiriau ac ymadroddion sylfaenol	461	55.81	571	35.49
Dim sgiliau	58	7.02	675	41.95
Cyfanswm	826	100.00	1,609	100.00

Cynnydd o 15% (o 103 yn 2020/21 i 118 yn 2021/22) yn nifer y staff sy'n teimlo bod ganddynt y sgiliau i ddarllen yr holl ddeunyddiau gwaith yn Gymraeg. Mae hyn yn 7.33% o'r rhai a ddarparodd ddata. Fodd bynnag, mae hyn yn ganran is o faint y sampl gyffredinol mewn cymhariaeth â 2020/21.

Rydyn ni hefyd wedi gweld cynnydd yn y modd y gall staff ddefnyddio deunyddiau gwaith sylfaenol (cynnydd o 26% - o 103 yn 2020/21 i 130 yn 2021/22) a geiriau ac ymadroddion sylfaenol (cynnydd o 24% - o 461 yn 2020/21 i 571 yn 2021/22). Unwaith eto, mae'r rhain yn ganrannau is o faint y sampl gyffredinol mewn cymhariaeth â 2020/21.

Sgiliau Siarad	Nifer y Cyflogeion 2020/21	Canran y Cyflogeion 2020/21	Nifer y Cyflogeion 2021/22	Canran y Cyflogeion 2021/22
Rhugl - pob sgwrs	104	12.59	116	7.22
Y mwyafrif o sefyllfaoedd	30	3.63	31	1.93
Sgwrsio ag eraill	45	5.45	53	3.30
Ateb ymholiadau syml	110	13.32	145	9.02
Sgwrs gyffredinol	413	50.00	519	32.30
Dim sgiliau	124	15.01	743	46.24
Cyfanswm	826	100.00	1,607	100.00

Cynnydd o 12% (o 104 yn 2020/21 i 116 yn 2021/22) yn nifer y staff sy'n teimlo bod ganddynt y sgiliau i gynnal sgysiau gwaith yn rhugl yn y Gymraeg. Mae hyn yn 7.22% o'r rhai a ddarparodd ddata. Fodd bynnag, mae hyn yn ganran is o faint y sampl gyffredinol mewn cymhariaeth â 2020/21.

Rydyn ni hefyd wedi gweld cynnydd yn y modd y gall staff sgwrsio ag eraill (cynnydd o 18% - o 45 yn 2020/21 i 53 yn 2021/22) ac ateb cwestiynau syml (cynnydd o 32% - o 110 yn 2020/21 i 145 yn 2021/22). Unwaith eto, mae'r rhain yn ganrannau is o faint y sampl gyffredinol mewn cymhariaeth â 2020/21.

Sgiliau Ysgrifennu	Nifer y Cyflogeion 2020/21	Canran y Cyflogeion 2020/21	Nifer y Cyflogeion 2021/22	Canran y Cyflogeion 2021/22
Sgilgar - gwneud gwaith cymhleth	86	10.41	97	6.03
Mwyafrif testun ysgrifenedig	36	4.36	40	2.49
Testun arferol, gyda chymorth	41	4.96	51	3.17
Negeseuon sylfaenol	378	45.76	106	6.59
Gohebiaeth syml	78	9.44	470	29.21
Dim sgiliau	207	25.06	845	52.52
Cyfanswm	826	100.00	1,609	100.00

Cynnydd o 13% (o 86 yn 2020/21 i 97 yn 2021/22) yn nifer y staff sy'n teimlo bod ganddynt y sgiliau ysgrifennu i wneud gwaith cymhleth yn Gymraeg. Mae hyn yn 6.03% o'r rhai a ddarparodd ddata. Fodd bynnag, mae hyn yn ganran is o faint y sampl gyffredinol mewn cymhariaeth â 2020/21.

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn y modd y gall staff ysgrifennu gohebiaeth syml (o 78 yn 2020/21 i 470 yn 2021/22). Mae hyn yn gynnydd yng nghanran y data a gasglwyd. Fodd bynnag, mae gostyngiad yn nifer y staff sy'n teimlo eu bod yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol (gostyngiad o 378 yn 2020/21 i 106 yn 2021/22). Bydd hyn yn cael ei ymchwilio ymhellach drwy ymgysylltu â staff ac egluro'r categorïau.

SAFON 152

NIFER YR AELODAU STAFF AETH AR GYRSIAU HYFFORDDIANT A GYNHALIWDYD YN GYMRAEG YN YSTOD Y FLWYDDYN (AR SAIL Y COFNODION A GADWYD YN UNOL Â SAFON 152)

Mae dros 30 aelod o staff rheng flaen wedi cael hyfforddiant i loywi'u sgiliau ffôn a chyfarchiad yn y Gymraeg, gan gynnwys staff o Ganolfan Gyswllt a Derbynfeydd y Cyngor.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 58 aelod o'i staff yn dysgu Cymraeg yn y gweithle gan amrywio o Lefel Mynediad i Lefel Canolradd 1 a 2. Mae hyn yn gynydd o'r 14 a gofnodwyd yn 2020/21. Oherwydd pandemig y coronafeirws, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi penderfynu cynnal yr arholiadau llafar eleni yn hytrach nag y llynedd: fe safodd 6 dysgwr yr arholiad canolradd ym mis Mehefin 2021 a bu pob un ohonyn nhw'n llwyddiannus. At hynny, yn 2022/23, bydd y dysgwyr dan sylw'n mynychu Cwrs Preswyl Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn yng Ngogledd Cymru. Mae'r cwrs hwn ar gyfer Cymraeg yn y Gweithle ac wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

OS CYNIGIWDYD FERSIWN GYMRAEG O GWRS YN YSTOD Y FLWYDDYN, Y GANRAN O GYFANSWM NIFER Y STAFF A FYNCHODD Y CWRS A FYNCHODD Y FERSIWN GYMRAEG (AR SAIL COFNODION A GADWYD YN UNOL Â SAFON 152)

Ddim yn gymwys.

SAFON 154

NIFER Y SWYDDI NEWYDD A GWAG A HYSBYSEBWDYD YN YSTOD Y FLWYDDYN A GATEGOREIDDIWDYD FEL RHAI LLE - (I) ROEDD SGILIAU IAITH GYMRAEG YN HANFODOL, (II) ROEDD ANGEN DYSGU SGILIAU IAITH GYMRAEG YN DILYN PENODIAD I'R SWYDD, (III) ROEDD SGILIAU IAITH GYMRAEG YN DDYMNOL, NEU (IV) NAD OEDD ANGEN SGILIAU IAITH GYMRAEG (AR SAIL Y COFNODION A GADWYD YN UNOL Â SAFON 154)

O'r 403 o swyddi a hysbysebwyd, roedd 8 yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol a 395 yn nodi ei bod yn ddymunol. Mae hyn yn gynydd mewn cymhariaeth â 2020/21 lle nad oedd y Gymraeg yn hanfodol i'r un o'r 167 o swyddi a hysbysebwyd. Cafwyd datblygiad pellach o ran cofnodi'r Gymraeg yn hanfodol gyda mwy o graffu gan swyddogion ar lefel Tîm Rheoli Corfforaethol.

CWYNION

NIFER Y CWYNION A DDAETH I LAW YN YSTOD Y FLWYDDYN SY'N YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIANT Â'R SAFONAU YR YDYM O DAN DDYLETSWYDD I'W HARDDDEL

Ni dderbyniodd Adran Cwynion y Cyngor unrhyw gwynion ffurfiol mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Sut i gysylltu â ni

Os hoffech chi gael copi o'r Adroddiad Blynyddol hwn mewn unrhyw fformat arall neu ei gyfieithu i iaith arall, cysylltwch â: cymraeg@merthyr.gov.uk

Ein gwefan: www.merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Rhif ffôn: (01685) 725000